# YR ATODLENNI

## ATODLEN 6

## ER MWYN DIOGELU NETWORK RAIL

### *Cynnal a chadw'r gweithfeydd perthnasol*

**10.** Rhaid i'r ymgymerwr sicrhau bod unrhyw weithfeydd perthnasol, ac eithrio gwaith sy'n perthyn i Network Rail (neu gwmni cysylltiedig perthnasol), yn cael ei gynnal a'i gadw yn y fath gyflwr fel nad yw'n peri unrhyw effaith niweidiol ar weithredu eiddo'r rheilffyrdd.